



25a Bell Street, Henley-on-Thames RG9 2BA  
tel: 01491 573535 e-mail: [hq@oss.org.uk](mailto:hq@oss.org.uk)  
website: [www.oss.org.uk](http://www.oss.org.uk)  
(registered in England and Wales, limited  
company number 7846516,  
registered charity number 1144840)

Cymdeithas y Mannau Agored  
25a Bell Street,  
Henley-on-Thames RG9 2BA  
ffôn 01491 573535, e-bost [hq@oss.org.uk](mailto:hq@oss.org.uk)  
[www.oss.org.uk](http://www.oss.org.uk)  
(rhif elusen cofrestredig 1144840, rhif cwmni  
cyfyngedig 7846516)

## Wales: Our Common Heritage

## The Open Spaces Society's Action Plan for the Welsh Government, 2016-2021

## Cymru: Treftadaeth Gyffredin ein Comin

## Cynllun Gweithredu Cymdeithas y Mannau Agored ar gyfer Llywodraeth Cymru, 2016-2021

The Open Spaces Society (in full the Commons, Open Spaces and Footpaths Preservation Society) is Britain's oldest national conservation body. Founded in 1865 we campaign to create and conserve common land, town and village greens, open spaces and public paths, in town and country, throughout Wales and England. We are consulted by the Welsh Government on all applications for works on common land, and by highway authorities on all changes to the public-path network.

Our Action Plan for the Welsh Government chimes with the seven principles in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015: open spaces and paths are crucial to the economy, health and well-being of Wales, its history, culture and present-day living. If these places are in good heart, people will visit them for recreation and enjoyment, and the local economy will benefit. The success of the Wales Coast Path is testament to this.

Cymdeithas y Mannau Agored (ein enw llawn yw'r Gymdeithas Gwarchod Tir Comin, Mannau Agored a Llwybrau Troed) yw corf cadwraethol cenedlaethol hynaf Prydain. Sefydlwyd y gymdeithas yn 1865, ac fe ymgyrchwn dros greu a gwarchod tiroedd comin, meysydd trefi a phentrefi, manau agored a llwybrau cyhoeddus mewn ardaloedd dinesig ac yng nghefn gwlad Cymru a Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau priffyrdd yn ymgynghori gyda ni ar bob cais i weithio ar dir comin neu ar newidiadau i'r rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus.

Mae ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â'r saith egwyddor yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: mae manau agored a llwybrau yn hanfodol i economi, iechyd a lles Cymru, ei hanes, ei diwylliant a'i ffordd o fyw cyfoes. Os cedwir y llefydd hyn yn dda, bydd pobl yn ymweld â nhw er difyrrwch a mwynhad, a bydd hyn o fantais i'r economi leol. Mae llwyddiant Llwybr Arfordir Cymru yn destament i hyn.

Eight per cent of Wales is common land, immensely important for its natural beauty, wildlife habitats, archaeology and opportunities for informal recreation. No other type of land offers such a range of public benefits. Commons are also crucial to the Welsh economy and sustainability because they provide grazing land (especially for hill farmers), and are significant tourist attractions.

We call on candidates for the Welsh Assembly Government election in 2016 to commit themselves to the following action points –

Mae wyth y cant o diroedd Cymru yn dir comin, tiroedd sydd yn hollbwysig oherwydd eu prydfferthwch naturiol, eu cynefinoedd bywyd gwylt, eu archaeoleg a'u cyfleoedd i ddarparu adloniant anffurfiol. Nid oes unrhyw fath arall o dir yn cynnig ystod mor eang o fuddiannau cyhoeddus. Mae tir comin hefyd yn hynod o werthfawr i economi a chynnaladwyedd Cymru oherwydd ei fod yn darparu tir pori (yn enwedig ar gyfer ffermwyr mynydd) ac yn denu nifer sylweddol o ymwelwyr.

Galwn ar ymgeiswyr Etholiad Cynulliad Cymru 2016 i ymrwymo i'r pwyntiau gweithredu canlynol -

- 1 Resources to sustain common land, town and village greens, open spaces, public paths, walking, horse-riding and cycling as vital to the health and well-being of Wales and its people.
- 2 Full recognition and protection of urban back-lanes and alleyways, tracks and open space as assets for town and city-dwellers.
- 3 Implementation of the Commons Act 2006 without delay, providing for updating of the common-land registers and the formation of commons councils, to assist landowners, commoners and the public.
- 4 Public maps showing farms in the Glastir scheme; use of Glastir to secure better management of common land, and strict enforcement of conditions which require public paths to be kept clear of obstruction.
- 5 A duty on local authorities to take action against unlawful works on common land.
- 6 Speed limit of 20mph on all unfenced roads across common land, to safeguard stock, the landscape and public access.

Darparu adnoddau i gynnal tiroedd comin, meysydd trefi a phentrefi, mannau agored, llwybrau cyhoeddus, cerdded, merlota a beicio, oll yn hanfodol i iechyd a lles Cymru a'i phobl.

Cydnabyddiaeth lawn a gwarchodaeth ar gyfer lonydd cefn, traciau a mannau agored dinesig, yn asedau ar gyfer trigolion trefol.

Gweithredu Deddf Tir Comin 2006 heb oedi, gan ddarparu ar gyfer diweddarau'r cofrestrau, creu cynghorau tir comin a chynorthwyo tiffeddianwyr a'r cyhoedd.

Mapiau cyhoeddus yn dangos ffermydd yng nghynllun Glastir; defnyddio Glastir i sicrhau gwell rheolaeth o dir comin, a gorfodaeth llym o amodau i gadw llwybrau cyhoeddus yn ddi-rwystr.

Dyletswydd ar awdurdodau lleol i weithredu yn erbyn gwaith anghyfreithlon ar dir comin.

Cyfyngiad cyflymder o 20mya ar bob ffordd heb ei ffensio sydd yn croesi tir comin, er mwyn diogeli stoc, y tirwedd a mynediad cyhoeddus.

7 A right for the public to ride horses on *all* commons.

8 A requirement for common land and town and village greens within or adjacent to proposed development to be a material planning-consideration.

9 A right of appeal, and a requirement to provide suitable alternative land, before public open space is taken for another purpose.

10 Communities empowered to register local open spaces as community assets to secure their long-term protection.

11 Greater rights of public access to land—but with no downgrading of the status, protection and recognition of public paths.

12 All public paths in Wales recorded, open and easy to use, with all public highways included on the definitive map of rights of way. Revocation of the law which will, on 1 January 2026, close definitive maps to claims based on historic evidence.

Hawl i'r cyhoedd ferlota ar *bob* comin.

Creu gofyniad bod tiroedd comin a meysydd trefi a phentrefi sydd yn ffinio â datblygiadau arfaethedig yn ystyriaeth cynllunio materol.

Hawl i apelio a gofyniad i ddarparu tiroedd addas eraill, cyn defnyddio mannau agored cyhoeddus at ddibenion eraill.

Ymrymuso cymunedau i gofrestru mannau agored lleol yn asedau cymunedol er mwyn sicrhau eu gwarchodaeth yn hirdymor.

Cynyddu hawl y cyhoedd i dramwyo tir – ond heb leihau statws, gwarchodaeth na chydabyddiaeth llwybrau cyhoeddus.

Cofnodi pob llwybr cyhoeddus yng Nghymru, gan sicrhau eu bod yn agored ac yn hawdd eu defnyddio, a chynnwys pob priffordd gyhoeddus ar y map terfynol o hawliau tramwy. Diddymu'r ddeddf a fydd, ar Ionawr 1af 2026, yn cau mapiau terfynol i unrhyw hawliau sydd yn seiliedig ar dystiolaeth hanesyddol.



Open cast mine at Ffos y Fran where a large area of common land has been lost for the next 15 years.  
Photo: Eddy Blanche

The Open Spaces Society urges Assembly Members to provide the resources to maintain and protect commons, and to ensure the presence of common land is a material planning consideration (see points 1 & 8).

Cloddfa glo brig Ffos y Fran, collwyd ardal sylweddol o gomin yma ac ni fydd yn cael ei ddychwelyd am 15 mlynedd.

Llun: Eddy Blanche

Mae Cymdeithas y Mannau Agored yn galw ar Aelodau'r Cynulliad i ddarparu adnoddau i gynnal a gwarchod tiroedd comin, a sicrhau bod presenoldeb tir comin yn ystyriaeth cynllunio materol (gweler pwyntiau 1 & 8).





Green space at Cefn Glas, Bridgend  
Planning applications threaten to  
destroy many open spaces around  
Bridgend, for example at Cefn Glas,  
Cefn Cribwr and North Connelly.

Urban spaces should be fully  
recognised and protected as assets for  
town and city-dwellers (see point 2).

Tir glas yng Nghefn Glas, Pen-y-bont ar  
Ogwr

Mae ceisiadau cynllunio yn bygwth  
dinistrio llawer o'r mannau agored o  
amgylch Pen-y-bont ar Ogwr, er  
enghraifft yng Nghefn Glas, Cefn Cribwr  
a Gogledd Connelly.

Dylai ardaloedd agored dinesig dderbyn  
cydnabyddiaeth lawn a gwarchodaeth  
fel asedau ar gyfer trigolion trefi a  
dinasoedd (gweler pwynt 2).

March 2016

25a Bell Street, Henley-on-Thames RG9 2BA  
*tel:* 01491 573535 *e-mail:* [hq@oss.org.uk](mailto:hq@oss.org.uk)  
*website:* [www.oss.org.uk](http://www.oss.org.uk)  
(registered in England and Wales, limited  
company number 7846516,  
registered charity number 1144840)

Mawrth 2016

Cymdeithas y Mannau Agored  
25a Bell Street,  
Henley-on-Thames RG9 2BA  
ffôn 01491 573535, e-bost [hq@oss.org.uk](mailto:hq@oss.org.uk)  
[www.oss.org.uk](http://www.oss.org.uk)  
(rhif elusen cofrestredig 1144840, rhif cwmni  
cyfyngedig 7846516)

